

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Llun, 7 Mawrth 2022

Lisa Evans

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Gwener, 11 Mawrth 2022 am 10.30 am i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
3. Trafodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gynllunio a lefelau ffosffad (Tudalennau 3 - 4)
4. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 5 - 8)

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau
Ffyniannus
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Craffu Cymunedau Ffyniannus**DYDDIAD:** 20 Ionawr a 11 Mawrth 2022**LLEOLIAD:** Ar-lein**TEITL:** Trafodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ar gynllunio a lefelau ffosffad**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Cyflwyno swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a DCWW**Y RHESWM Y MAE CRAWFU WEDI GOFYN AM** Gofynnodd yr Aelodau ar i swyddogion CNC a DCWW gael eu gwahodd i'r Pwyllgor Craffu.**Y WYBODAETH:**

CEFNDIR: Ym mis Ionawr 2021 rhyddhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor cynllunio dros dro ynghylch datblygu yn nalgylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru. Yn dilyn monitro cydymffurfiaeth Afon Teifi, a oedd yn gweld methiant ysbeidiol o ran lefelau ffosffad, roedd y cyngor hwn yn sicrhau na fyddid yn caniatáu unrhyw ddatblygiad pellach a oedd â'r potensial i gynyddu lefelau ffosffad yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol.

Y SEFYLLFA BRESENNOL: Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi cael effaith ganlyniadol sylweddol ledled y sir:

1. Effeithir ar y 3 prif Ganolfan Gwasanaethau Trefol yng Ngheredigion, sef Llanbedr Pont Steffan, Tregaron a Llandysul, a'r aneddiadau cyfagos
2. Rhoddwyd saib ar y Cynllun Datblygu Lleol
3. Nid yw'n bosib cyflenwi'r safleoedd a neilltuwyd yn yr ardal yr effeithir arni (y bwriadwyd i 114 o'r 500 o gartrefi fod yn rhai fforddiadwy)
4. Bu'n rhaid dirymu neu wrthod ceisiadau cynllunio
5. Mae DCWW wedi cadarnhau mai dim ond un Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) sy'n stripio ffosffad yng Nghyngor Sir Ceredigion (Llanddewi Brefi) ac mae cynlluniau heb eu cadarnhau y gall un arall (Tregaron) gael ei gynnwys yn y cyfnod Cynllunio Rheoli Asedau, 2025-2030.
6. Mae gwaith rhagarweiniol ar ddosrannu ffynonellau (gan DCWW ar Afon Gwy) yn dangos bod cyfran ffosffad sylweddol yn dod o amaethyddiaeth yn ogystal ag o Waith Trin Dŵr Gwastraff.

Mewn cyfarfodydd craffu blaenorol, gofynnodd yr aelodau am gael cwrdd â chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru a DCWW i drafod sefyllfa ffosffad yng Ngheredigion, yn ogystal â materion ynghylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn rhyddhau elifion i ardaloedd afonol eraill CSC (sef harbwr Aberaeron) a'r amserau ymateb ar

Tudalen 4

gyfer ymgynghori gan y gwasanaeth Rheoli Datblygu.
Felly, cysylltwyd â DCWW a Chyfoeth Naturiol Cymru a chytunodd swyddogion perthnasol i'r meysydd pwnc dan sylw fod yn bresennol.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam Na, gan nad yw'r drafodaeth hon yn llunio nac yn datblygu polisi.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

**Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:**

ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Dim argymhellion ffurfiol; trafodaeth er gwybodaeth yn unig.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Enw Cyswllt: Dr Sarah Groves-Phillips
Teitl: Rheolwr Gwasanaeth Polisi Cynllunio
Dyddiad yr Adroddiad: 13/12/2021
Acronymau: GTDG - Gwaith Trin Dŵr Gwastraff
DCWW - Dŵr Cymru Welsh Water
CNC - Cyfoeth Naturiol Cymru
CGT - Canolfan Gwasanaethau Trefol

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWIG A CHRAFFU CYMUNEDAU
FFYNIANNUS**

**a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron.
ddydd Dydd Gwener, 18 Chwefror 2022**

PRESENNOL: Cynghorydd Marc Davies (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Euros Davies (Is-Gadeirydd), Cynghorydd John Adams-Lewis, Cynghorydd Clive Davies, Cynghorydd Gareth Davies, Cynghorydd Gethin Davies, Cynghorydd Ifan Davies, Cynghorydd Meirion Davies, Cynghorydd Rhodri Davies, Cynghorydd Elizabeth Evans, Cynghorydd Keith Evans, Cynghorydd Gwyn James, Cynghorydd Maldwyn Lewis, Cynghorydd Dai Mason a/ac Cynghorydd John Roberts

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Ellen ap Gwyn, Catrin Miles, Ray Quant, Alun Williams, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Ceredig Davies, Rowland Rees Evans, a Daniel Potter.

(9.30 am - 12.38 pm)

1 Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwr Lyndon Lloyd am eu hanallu i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Dim

3 Adroddiad ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23

Cyfarfu Aelodau'r Pwyllgor Trosolwig a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i ystyried y gyllideb ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ac i ystyried yr argymhellion canlynol:

1. Ystyried y Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf cyffredinol a gynigir.
2. Ystyried y pwysau costau amcangyfrifedig a wynebdir (£13.173m ar draws pob agwedd).
3. Ystyried y ffioedd a'r taliadau arfaethedig a'r incwm ychwanegol o £155k a amcangyfrifir i helpu gyda'r Arbedion sydd eu hangen.
4. Nodi'r Targed Arbedion Teithio arfaethedig o £230k ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.
5. Nodi'r Balans Arbedion o £113k y mae angen dod o hyd iddo o hyd.
6. Ystyried y 3 opsiwn a gynigir ar gyfer lefel Treth y Cyngor, sef 4.75%, 5.0% a 5.25%.
7. Darparu unrhyw adborth priodol arall sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft i'r Cabinet.

Tudalen 6

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/2023 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf tair blynedd, gan esbonio mai setliad dros dro yw hwn, a disgwylir y setliad terfynol ar 1 Mawrth, 2022.

Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod llythyr wedi dod i law ar 17 Chwefror 2022 gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, yn cyhoeddi cynnydd o £50m ar gyfer y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2021-2022. Nid yw'r swm a fydd yn cael ei ddyrannu i Gyngor Sir Ceredigion yn hysbys hyd yma ond mae'n debygol o fod tua £1m. Nid yw'r cyllid wedi'i neilltuo (h.y. heb ei ddyrannu i wasanaethau penodol) a gellir ei gario ymlaen mewn cronfeydd wrth gefn i flwyddyn ariannol 2022-2023. Esboniwyd y byddai angen ystyried goblygiadau'r cyllid ychwanegol hwn a sut y byddai hynny'n cael ei ddyrannu ar gyfer cyllideb 2022-2023. Croesawodd yr aelodau'r cyllid ychwanegol ond mynegwyd siom bod y cyhoeddiad yn hwyr ac nad oedd yn caniatáu i waith craffu ddigwydd yn seiliedig ar y wybodaeth newydd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ar 3 Mawrth 2022 ac y byddai cyfle i drafod ymhellach.

Yna cyflwynodd yr Aelod Cabinet perthnasol y wybodaeth sy'n berthnasol i'w Faes Gwasanaeth. Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb yn eu tro gan Aelodau Cabinet a/neu Swyddogion.

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor y Pwysau Costau ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor; sef:

- Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
- Yr Economi ac Adfywio

Ac:

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'r Ffioedd a'r Taliadau o dan gylch gwaith y Pwyllgor yn Atodiad D, tudalennau 14 i 15 o 51 ym mhapurau'r agenda.

Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r 3 opsiwn a gynigiwyd ar gyfer lefelau Treth y Cyngor yn cael eu trafod yn y cyfarfod heddiw oherwydd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru bod amcangyfrif o £1miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i Gyngor Ceredigion. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yng nghyfarfod y Cyngor.

Argymhellion:

Ar ôl ystyried, cytunodd yr Aelodau i argymhell bod y Cabinet yn:

1. CYMERADWYO'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf cyffredinol a gynigir;
2. CYMERADWYO'r Pwysau Costau amcangyfrifedig;
3. CYMERADWYO'r Ffioedd a'r Taliadau arfaethedig fel yr amlinellir yn Atodiad D, atodiad 2 ym mhapurau'r agenda, (tudalennau 16-44 o 51)
4. CYTUNO nodi'r Targed Arbedion Teithio arfaethedig o £230k ar gyfer Swyddogion ac Aelodau;
5. CYTUNO nodi'r Balans Arbedion o £113k y mae angen dod o hyd iddo o hyd;

Tudalen 7

6. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ddarparu'r argymhellion priodol canlynol yn ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft i'r Cabinet:

a) bod catamarán yn cael ei thrin yr un fath â chwch ungragen (monohull) ar gyfer ffioedd a thaliadau 2022/23 tra bod adolygiad o'r polisi yn cael ei gynnal. Dylid croesawu catamaranau gan eu bod yr un maint â chwch ungragen, yn fwy diogel, yn fwy sefydlog, yn haws i'w symud ac yn well i'r amgylchedd.

b) bod ffioedd parcio yn cael eu dileu yn Nhregaron a Llandysul.

4 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

CYTUNWYD i gadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022.

Materion yn codi

Nid oedd materion yn codi.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar Dydd Gwener, 11 Mawrth 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol